**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 2ail o DACHWEDD 2015 YN NEUADD CARWE AM 7.00.**

**Presennol:** Geraint Rosser (yn y gadair),Margaret Rees,Geoff Hewitt,Aled Williams, Ian Evans, Tyssul Evans,Linda Williams,Ellis Jenkins,Heddwyn Jones,Alan Lewis a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Carrie Rees,Wendy Evans,Meic Bowen a Richard Thomas

**Materion Personol**

**1270** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig Mr Chris Matts o'r Coed Cadw a gyflwynodd adroddiad o'u gweithgarwch yng Nghoed Ffos Las.Mynegwyd pryder hefyd wrth glywed bod y Cynghorydd Richard Thomas yn yr Ysbyty. Danfonwyd cyfarchion am adferiad buan iddo.

**1271 Cofnodion**
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 05/10/2015 fel rhai cywir.

**1272 Materion yn codi.**

Tud. 1 Cofnod Rhif 1245 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y mater yn nwylo'r Cyngor Sir a'r Heddlu.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1273** Gwasanaethau Cymorth a Gwybodaeth am Ganser -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

**1274** Pontyates & District Caged Bird Society - Penderfynwyd talu am hurio Neuadd Pontiets ar gost o hyd at £66.

*Cynghorwr Geoff Hewitt yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1275** Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

*Geoff yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwyr Geoff Hewitt,Ellis Jenkins a Heddwyn Jones yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1276** Nasareth Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

*Geoff,Ellis a Heddwyn yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwyr Ian Evans,Aled Williams a Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1277** Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch – Neuadd Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

*Ian,Aled a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**1278** Eisteddfod Llandyfaelog - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1279** Bethel Carwe - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1280** Meinciau Sports & Recreation Club - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1281** Ebeneser Crwbin - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

**1282** Cyngor Sir Gar – Addurniadau Tymhorol – Nodwyd y llythyr.

**1283** Cyngor Sir Gar – Ymgynghoriad ar gynnig ar gyfer'Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus' Sir Gaerfyrddin – Nodwyd y llythyr.

**1284** Cyngor Sir Gar - Cais am Lwybrau Diogel mewn Cymunedau - Cais Aflwyddiannus - Nodwyd y Llythyr.

**1285** Cyngor Sir Gar- Newid Categori Iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin- Nodwyd y Llythyr.

**1286** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Sgwrs Iach – Nodwyd y Llythyr.

**1287** Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin – Nodwyd y Llythyr.

**1288** Yr Arolygwr Cynllunio – Coedwig Brechfa – Nodwyd y Llythyr.

**Ceisiadau Cynllunio**

**1289**

Ceisiadau Cynllunio:

- Zoe Burton - Adeilad Amlbwrpas Amaethyddol - Tir ar B4309,Meinciau - Aros am fwy o fanylion oddiwrth y Cyngor Sir.
- Mr a Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon,Pedair Heol – Newid i Adeilad Bwyd Anifeiliaid – **Gwrthwynebiad ar sail bod yr heol yn gul a'r Groesffordd yn anaddas i Gerbydau trwm.- Aros am ddyddiad Cyfarfod Safle.**

**Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

**1290** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Hydref 2015.

**Adroddiad Ariannol Misol**

**1291** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
**a)** Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Hydref)
**b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Hydref)
**c)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Hydref)
**ch)** HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Hydref)
**d)** Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
**dd)** Ffon y Syrfëwr - £40.00
**e)** Ciran Griffiths – Gwaith o amgylch y Plwyf - £100.00
**f)** Stampiau - £12.96

**1292 Parc Llangyndeyrn**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn ag apêl a dderbyniwyd oddiwrth Pwyllgor Lles Llangyndeyrn am nawdd ariannol tuag at adnewyddu'r Ffrâm ddringo yn y Parc. Fe fydd y gost lawn tuag at £21000. Penderfynwyd cyfrannu £3000 tuag at y gwaith.

**1293 Gwarchodfa Bws – Heol y Delyn,Crwbin**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r warchodfa uchod a phenderfynwyd gwneud ymholiadau gyda'n Cwmni Yswiriant ynghylch a'n Cyfrifoldeb Cyhoeddus.

**1294 Rheilffordd Pontiets**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod ein cais am gymorth ariannol o Gronfa'r Dreftadaeth wedi ei gwrthod. Wedi trafodaeth penderfynwyd ein bod yn trefni cyfarfod rhwng pawb sydd â diddordeb yn y cynllun cyn gynted ag sydd bosibl.

**Materion Cynghorwyr**

**1295** Aled

- Ffair Nadolig Ysgol Gwynfryn - codi arian tuag at Ganopi'r Ysgol. Penderfynnwyd bod y Cyngor yn talu am logi Neuadd Pontiets.

**Cyfarfod nesaf:- 7fed o Ragfyr 2015 yn Swyddfa'r Cyngor,Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.**
**(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd……. CADEIRYDD**

**Dyddiad……**